Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 255 (Cy. 34)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Rhagdybiaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988").

Mae paragraff (1) o reoliad 2 yn pennu'r dosbarth o hereditament y mae'r rhagdybiaethau hyn i'w cymhwyso iddo, sef hereditamentau y byddai eu gwerth ardrethol wedi ei effeithio gan un neu ragor o bedwar peth. Yn gyntaf, deddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth; yn ail, darpariaeth a wneir o dan ddeddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth, ac y rhoddir effaith iddi drwy ddeddfwriaeth y wlad neu'r diriogaeth honno; yn drydydd, cyngor neu ganllawiau a roddir gan awdurdod cyhoeddus mewn unrhyw wlad neu diriogaeth; ac yn bedwerydd, unrhyw beth a wneir neu nas gwneir gan berson gyda'r nod o gydymffurfio â'r pethau hyn.

Mae paragraffau (2) a (3) o reoliad 2 yn rhagnodi'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth ganfod gwerth ardrethol yr hereditamentau hynny. Y rhagdybiaethau yw nad oedd unrhyw newid i "mater perthnasol" fel y'i diffinnir ym mharagraff (4) o reoliad 2, y gellir ei briodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw un neu ragor o'r pedwar peth a restrir ym mharagraff (1) o reoliad 2, wedi digwydd.

Rhagdybiaeth bellach yw nad oedd unrhyw newid i fater perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) o reoliad 2 a ddigwyddodd ar ôl y diwrnod (fel y'i pennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988) y canfuwyd gwerth yr hereditament arno, ond ar y diwrnod y lluniwyd y rhestr ardrethu neu cyn hynny, wedi digwydd ychwaith.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 255 (Cy. 34)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Rhagdybiaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mawrth 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *7 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Rhagdybiaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2023 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2023.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Prisio hereditamentau

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i hereditament y byddai'r gwerth ardrethol a ddangosir ar restr ardrethu ar gyfer yr hereditament hwnnw, oni

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 2(8) gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) a pharagraff 38(8) o Atodlen 5 iddi. *Gweler* adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

bai am y Rheoliadau hyn, yn cael ei effeithio o ganlyniad i—

(a) deddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth;

(b) darpariaeth nad yw o fewn is-baragraff (a) ond a wneir o dan ddeddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth, ac y rhoddir effaith iddi drwy ddeddfwriaeth y wlad neu'r diriogaeth honno;

(c) cyngor neu ganllawiau a roddir gan awdurdod cyhoeddus mewn unrhyw wlad neu diriogaeth;

(d) unrhyw beth a wneir gan berson gyda'r nod o sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw beth yn is-baragraff (a), (b) neu (c), neu unrhyw beth nas gwneir gan berson gyda'r nod hwnnw.

(2) At ddibenion canfod gwerth ardrethol hereditament y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ar gyfer unrhyw ddiwrnod ar 1 Ebrill 2023, neu ar ôl hynny, wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, rhaid rhagdybio, ar y diwrnod hwnnw, nad oedd unrhyw newid i fater perthnasol a oedd i'w briodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddeddfwriaeth, darpariaeth, cyngor, canllawiau neu sicrhau cydymffurfedd y cyfeirir ato yn rheoliad 2(1)(a) i (d), wedi digwydd.

(3) Mae'r rhagdybiaeth yn rheoliad 2(2) i'w chymhwyso hefyd at y dibenion hyn pan fo unrhyw newid o'r fath i fater perthnasol wedi digwydd ar ôl y diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 ond ar y diwrnod y lluniwyd y rhestr ardrethu neu cyn hynny.

(4) Y materion perthnasol yw—

(a) materion sy'n effeithio ar fwynhad ffisegol o'r hereditament;

(b) dull neu gategori meddiannaeth yr hereditament;

(c) materion nad ydynt yn effeithio ar gyflwr ffisegol yr ardal leol y mae'r hereditament wedi ei leoli ynddi ond sydd er hynny'n bresennol yn ffisegol yno;

(d) defnyddio mangreoedd eraill sydd wedi eu lleoli yn ardal leol yr hereditament, neu feddiannu mangreoedd o'r fath.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "awdurdod cyhoeddus" ("*public authority*") yw corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus;

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae "deddfwriaeth ("*legislation*") yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o natur ddeddfwriaethol;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" gan adran 64 o Ddeddf 1988;

ystyr "rhestr ardrethu" ("*rating list*") yw rhestr ardrethu annomestig leol neu ganolog o dan Ran 3 o Ddeddf 1988.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2023